UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
www.ucac.cymru

Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru
5$^{ed}$ Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

9 Mehefin 2020

Annwyl Weinidog,

**Ail-agor ysgolion**

Ysgrifennwn atoch mewn ymateb i'r datganiad a wnaethoch ddydd Mercher 3 Mehefin am y 'cam nesaf' ar gyfer ysgolion ('"Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi" - pob ysgol yng Nghymru i symud i'r cam nesaf') .

Mae UCAC, ochr yn ochr ag undebau addysg eraill, wedi bod yn trafod yn rheolaidd â'ch swyddogion ers dechrau'r argyfwng hwn, gan gynnwys y mater anodd o gynyddu gweithrediad ysgolion. Mae'r trafodaethau wedi bod yn agored, yn onest ac yn adeiladol, gan arwain at ffordd synhwyrol a phwyllog ymlaen i ddisgyblion a staff ysgolion yng Nghymru.

Gan hynny, cawsom ein synnu'n fawr gan y cyhoeddiad ddydd Mercher, a oedd yn gwrth-ddweud y cyngor a roddwyd gan UCAC ac undebau eraill ynghylch diogelwch dychweliad cyffredinol i'r ysgol i'r holl ddisgyblion cyn yr haf.

Fel y gwyddoch, roedd teimlad mai dychwelyd ym mis Medi fyddai'r opsiwn doethaf, ond y gallai dychwelyd Blynyddoedd 6, 10 a 12 cyn yr haf - er ei fod yn heriol - fod yn ymarferol. Yn wir, yn ein hymateb i'r cynigion, gwnaethom yn glir mai'r ymateb ymhlith ein haelodau i'r posibilrwydd y byddai'r holl flynyddoedd ysgol yn dychwelyd cyn yr haf oedd "gwrthodiad - a dychryn - fwy neu lai unfrydol."

Mae cynnwys y llythyr hwn wedi'i lywio gan ymateb ein haelodau i'r cyhoeddiad ar 3 Mehefin a thrafodaethau o fewn ein strwythurau democrataidd. Mae ein llinellau ffôn, ein mewnflychau a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol yn gorlifo ag ymholiadau, ac mae'n bwysig eich bod chi'n deall bod y pryderon a fynegir yma yn adlewyrchiad o ymateb y proffesiwn.

Yn ogystal, rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r Canllawiau Gweithredol a'r Canllawiau Dysgu drafft, er y dylid nodi bod awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau gwneud eu trefniadau eu hunain ar sail eich datganiad.

O dan yr amgylchiadau presennol, mae'r ystyriaethau ymarferol, logistaidd sy'n gysylltiedig â cheisio rhoi cyfle i bob disgybl ddychwelyd i'r ysgol cyn yr haf yn arswydus. Tra'n bod yn aros am gyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar y materion hyn, rydym wedi cyflwyno rhestr hirfaith o gwestiynau i'ch swyddogion ac atodaf y rhestr i'r llythyr hwn. Mae'r cyfrifoldeb ar ysgolion unigol, ac yn enwedig ar arweinwyr ysgolion, yn enfawr.

Cred UCAC fod y risgiau y mae'r Llywodraeth yn gofyn i weithlu ysgolion eu cymryd yn annerbyniol o uchel. Mae hyd yn oed y cynllunio a'r arweiniad manwl mwyaf gofalus yn golygu y bydd staff ysgolion yn agored i lefelau risg yr ydym ni o'r farn sy'n ddiangen ac yn anghyfrifol. Mae'n werth nodi, mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol, y gofynnir i athrawon nodi a fyddant yn gallu dychwelyd i'r ysgol ar 29 Mehefin ai peidio, heb wybod pa drefniadau fydd ar waith i sicrhau eu diogelwch.

Yn y bôn, yr uchaf yw nifer y plant, y mwyaf yw'r risg. Hyd yn oed os yw nifer y plant eraill y mae disgyblion yn agored iddynt yn gyfyngedig (er enghraifft, trwy fynediad wedi'i wahanu), yn ystod y pedair wythnos, bydd staff ysgolion wedi bod yn agored i blant o nifer fawr iawn o aelwydydd. Bydd staff ysgol hefyd yn pryderu am eu plant eu hunain a lefelau eu hamlygiad os bydd yn rhaid iddynt fynd i hybiau nawr.

Mae staff sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen yn wynebu risgiau difrifol iawn gan y derbynnir yn gyffredinol nad yw plant o'r oedran hwn yn gallu ymbellhau'n gymdeithasol mewn lleoliad ysgol - ac yn wir, mae eu hanghenion emosiynol a chorfforol yn gofyn am agosrwydd corfforol gan staff, a bydd hyn yn hynod anodd - os nad yn amhosibl – i'w wrthod i'r plant.

Roeddem yn cytuno'n llwyr â'r 5 egwyddor allweddol a amlinellwyd gennych ar gyfer penderfynu pryd a sut y byddai ysgolion yn cynyddu gweithrediadau. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod y penderfyniad a gyhoeddwyd ar 3 Mehefin yn bodloni'r 4 egwyddor gyntaf.

1. **Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff:** mae lefel y braw a fynegwyd gan aelodau yn yr amser byr ers y cyhoeddiad yn arwydd nad yw'r penderfyniad yn ffafriol i les meddyliol ac emosiynol staff
2. **Cyfraniad parhaus i'r ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i frwydro yn erbyn lledaeniad COVID-19:** mae lefel y teithio a'r cyswllt rhyng-gartrefol a fyddai'n deillio o'r penderfyniad ymhell y tu hwnt i'r hyn a ganiateir ar hyn o bryd i'r boblogaeth gyffredinol; nid ydym yn gwybod eto beth fydd y rheolau ar gyfer y boblogaeth gyffredinol o 29 Mehefin ymlaen, ond mae'n bosibl y bydd gweithrediad cynyddol ysgolion yn sylweddol wahanol i'r rheolau; mae pryderon penodol o ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan ei bod yn ymddangos bod achosion ar gynnydd yno
3. **Hyder rhieni, staff a myfyrwyr - yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth - fel y gallant gynllunio ymlaen llaw:** mae staff yn bell o deimlo'n hyderus am y dychweliad arfaethedig, ac mae absenoldeb gwybodaeth fanwl hyd yn hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt gynllunio
4. **Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig:** mae gallu ysgolion i flaenoriaethu dysgwyr allweddol (e.e. Blynyddoedd 6, 10 a 12) wedi'i gyfaddawdu'n sylweddol gan y gofyniad i gynnig dychweliad i'r holl grwpiau blwyddyn
5. **Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, i sefydlu arweiniad i gefnogi mesurau fel pellhau, rheoli presenoldeb a chamau amddiffyn ehangach.**

Bydd ein haelodau, heb os, yn gwneud eu gorau i greu awyrgylch croesawgar a chefnogol, wrth sicrhau amgylchedd sydd mor ddiogel â phosibl i bawb - ond bydd yn her enfawr a bydd y risgiau'n uchel. Mae'n debygol y bydd canlyniadau o ran lefelau pryder ac effaith ar iechyd meddwl.

Mae angen sicrwydd arnom ar frys gan Lywodraeth Cymru ynghylch y materion a ganlyn:

- darparu PPE ac arweiniad ar ei ddefnydd
- digonolrwydd gwasanaethau a chynhyrchion glanhau
- profi staff a disgyblion
- y bydd eglurder ynghylch disgwyliadau mewn perthynas ag Ysgolion Arbennig

- bod awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb ar unwaith dros hybiau a bod athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cael eu hawl i wyliau statudol dros yr haf cyn wynebu'r flwyddyn ysgol heriol sydd o'u blaenau
- bod amgylchiadau aelodau staff unigol yn cael eu hystyried wrth benderfynu pwy sy'n darparu ac yn cyflenwi dysgu o bell a phwy sy'n ofynnol ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb mewn ysgolion
- bod trefniadau cludiant diogel ar waith, ac na fydd unrhyw gategori o ddysgwyr yn cael ei wahaniaethu ar sail diffyg cludiant diogel, neu diffyg cludiant yn gyfan gwbl
- bod canllaw yn cael ei ddarparu mewn perthynas â dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig y disgyblion hynny sy’n arfer derbyn cefnogaeth un-i-un
- bod trefniadau ar waith ar gyfer lleihau gweithrediad ysgolion, neu ar gyfer cau oherwydd diffyg staff neu gynnydd mewn cyfraddau heintiau
- y bydd eglurder ar unrhyw addasiadau i gynnwys/gofynion asesu cyrsiau ar gyfer Blynyddoedd 10 a 12 cyfredol ar gael cyn gynted â phosibl
- bod eglurder yn cael ei ddarparu ynghylch y cyfrifoldeb dros gostau ychwanegol; mae angen eglurder a sicrwydd ar ysgolion ynghylch eu cyllidebau eu hunain

Wrth baratoi i anfon y llythyr hwn atoch, mae newyddion yn cyrraedd bod newid cynllun yn Lloegr o ran ail-agor ysgolion i bob disgybl cyn yr haf. Rydym yn pwyso arnoch i gymryd i dalu sylw i’r pryderon a’r ofnau gwbl ddiffuant a dilys fan hyn yng Nghymru, ac yn gofyn i chi aros yn driw i’ch 5 egwyddor allweddol ac ystyried adolygu’r penderfyniad.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r materion dybryd hyn, a nodwn y byddem ar gael i gwrdd ar-lein i drafod y materion hyn ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

D E Roberts-Young

Dilwyn Roberts-Young
Ysgrifennydd Cyffredinol

R C Williams

Rebecca Williams
Is-ysgrifennydd Cyffredinol